| CYNGOR SIR YNYS MÔN | | |
|---|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | |
| **Dyddiad:** | 19 Medi 2018 | |
| **Pwnc:** | Argymhellion Archwilio Mewnol / Materion a Risgiau sy'n parhau i fod angen sylw | |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk | |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk<br>01248 752611 | Siân A. Jones<br>Uwch Archwiliwr<br>SianAJones@ynysmon.gov.uk<br>01248 752612 |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar statws a manylion y risgiau a godwyd gan Archwilio Mewnol sy'n parhau i fod angen sylw. | | |

## 1. Rhagarweiniad

1.1. Gofynnodd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am fanylion am yr holl argymhellion sy'n parhau i fod angen sylw dwywaith y flwyddyn. Cyflwynwyd yr adroddiad diwethaf yng nghyfarfod 13 Chwefror 2018.

## 2. Argymhelliad

2.1. Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu'n nodi'r cynnydd gan y Cyngor o ran gweithredu argymhellion / risgiau a godwyd gan Archwilio Mewnol ers 1 Ebrill 2014.


## 3. Perfformiad o ran Gweithredu Argymhellion / Risgiau a godwyd gan Archwilio Mewnol

3.1. Fel yr adroddwyd eisoes, mae Archwilio Mewnol wedi symud ymlaen o wneud argymhellion i godi ‘Materion’ a ‘Risgiau’.

3.2. Er mwyn annog rheolwr i gymryd perchenogaeth o’r risgiau, eu cyfrifoldeb hwy ydyw i ddatblygu cynllun gweithredu i roi sylw i’r materion / risgiau a godwyd.

3.3. Cynhelir gwaith dilynol ar y materion / risgiau drwy fonitro’r gwaith a gwblhawyd wrth ymateb i’r risgiau. Caiff adroddiadau sydd wedi derbyn lefel sicrwydd Cyfyngedig neu Leiaf yn rhan o broses dilyniant ffurfiol gan Archwilio Mewnol lle na chaiff risgiau eu cau heb dderbyn tystiolaeth sy’n dangos bod camau digonol wedi eu cymryd gan reolwyr i liniaru’r risgiau. Caiff materion / risgiau eraill eu monitro trwy’r system tracio argymhellion hunan-wasanaethu corfforaethol y Cyngor.

3.4. Er mwyn rhoi gwybodaeth i’r Pwyllgor ar y tueddiadau, mae’r graff isod yn manylu ar y perfformiad mewn perthynas â gweithredu’r argymhellion / rhoi sylw i’r risgiau:




| | Ch3 2016/17 | Ch4 2016/17 | Ch1 2017/18 | Ch2 2017/18 | Ch3 2017/18 | Ch4 2017/18 | Ch1 2018/19 | Ch2 Hyd at 31/8/18 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uchel Coch Ambr | 81% | 81% | 80% | 90% | 97% | 91% | 90% | 93% |
| Canolig Melyn | 82% | 88% | 87% | 90% | 94% | 90% | 92% | 94% |
| Isel Gwyrdd | 66% | 80% | 80% | 83% | 90% | 90% | 91% | 92% |

3.5. Fel y gwelir, mae perfformiad y Cyngor yn gwella’n raddol gyda chanran gweithredu'r cyfan yn 93% ar hyn o bryd.

## 4. Yr Argymhellion / Risgiau sy'n parhau i fod angen sylw

4.1. Fel yr oedd ar 3 Medi 2018, roedd y Cyngor yn parhau i fod angen rhoi sylw i'r argymhellion / risgiau a materion canlynol gyda dyddiad targed hyd at 31 Awst 2018 ar gyfer eu gweithredu (manylion yn Atodiad A):

| Hyd at 31/08/2018 | Uchel | Coch | Ambr | Canolig | Melyn | Isel | Gwyrdd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Wedi eu Gweithredu | 76 | 9 | 51 | 320 | 90 | 201 | 32 | **779** |
| Cyfanswm Heb eu Gweithredu | 0 | 2 | 8 | 5 | 19 | 17 | 4 | **55** |
| Cyfanswm | 76 | 11 | 59 | 325 | 109 | 218 | 36 | **834** |
| % Gweithredwyd | **100%** | **82%** | **86%** | **98%** | **83%** | **92%** | **89%** | **93%** |
| **% Uchel Coch Ambr Wedi eu Gweithredu** | **93%** | | | | | | | |
| **% Canolig Melyn Wedi eu Gweithredu** | | | | **94%** | | | | |
| **% Isel Gwyrdd Wedi eu Gweithredu** | | | | | | **92%** | | |

4.2. Nodir y **ddwy** risg goch isod sydd heb eu bodloni ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn destun archwiliad dilyniant ar hyn o bryd.

| Cyf | Argymhelliad / Mater / Risg | Dyddiad yr Argymhelliad | Dyddiad Targed y cytunwyd arno | Swyddog Cyfrifol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gorchmynion Llys Gofal Plant (Gwasanaethau Plant)** | | | | | |
| 4 | Gwelwyd nad oedd ymweliadau Gweithwyr Cefnogol bob amser yn cael eu cynnal yn unol â'r cynllun gofal yn ystod achosion llys.<br>Mae risg o niwed emosiynol a / neu gorfforol i'r plentyn. | 27/01/17 | 31/01/18<br>(wedi newid o 31/03/17) | Rheolwr Gwasanaeth Corfforaethol a Phartneriaethau | Dilyniant Cyntaf 161744f1 – Gall diffyg cydymffurfiaeth arwain at achos o ddisgyblu staff. |
| **Fframwaith Caffael Corfforaethol - Cydymffurfiaeth Gorfforaethol (Tai)** | | | | | |
| 5 | Nid oes gan y Cyngor sicrwydd bod ei wariant wedi cael ei gaffael yn gywir ac mae'n bosibl bod y Cyngor wedi gwario heb gynnal ymarfer caffael cystadleuol ffurfiol. O'r herwydd, mae diffyg contractau addas ac nid yw materion megis diogelu, diogelwch a gwerth am arian wedi cael eu hystyried. | 07/09/17 | 31/03/18 | Pennaeth Tai | Cadarnhaodd y Rheolwr Caffael Corfforaethol bod y tîm Caffael ar gael i gynorthwyo a chynghori yn ôl yr angen. |

## Atodiad A – Argymhellion / Risgiau sy'n parhau i fod angen sylw

**Holl Argymhellion Archwilio Mewnol Uchel, Coch ac Ambr sydd heb eu gweithredu gyda dyddiad targed hyd at 31/08/2018**

| Cyf | Adroddiad | Argymhelliad / Mater / Risg | Dyddiad yr Argymhelliad | Dyddiad Targed y cytunwyd arno | Swyddog Cyfrifol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Plant** | | | | | | |
| 1 | Gorchmynion Llys Gofal Plant 044 2016/17 | 1 Ymddengys mewn profion nad yw'r Protocol Achosion Gofal, Amlinell Cyfraith Gyhoeddus a Materion Cyfreithiol 2016 bob amser yn cael ei ddilyn mewn sefyllfaoedd sy'n gofyn am weithrediad cyflym. Ni chynhaliwyd Cyfarfod "Legal Gatekeeping" Brys ei gynnal o fewn 24 awr o'r penderfyniad i'w gynnal.<br><br>Gall hyn arwain at ddiffyg penderfyniadau a gweithrediad prydlon lle mae risg i blentyn dderbyn niwed emosiynol / corfforol. | 27/01/17 | 31/01/18 wedi newid o 31/01/17 | Rheolwr Gwasanaeth Corfforaethol a Phartneriaethau | Dilyniant Cyntaf 161744f1 - Mae Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Dwys wedi cychwyn diwedd Tachwedd 2017 ac wedi adolygu'r trefniadau gwaith presennol i sicrhau bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal o fewn 24 awr i'r penderfyniad.<br><br>Mae'r Tîm Cefnogi Busnes bellach yn tracio a monitro achosion a drafodwyd yn y cyfarfodydd "Legal Gatekeeping" mewn modd mwy grymus. Mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 4.1.18, cytunwyd i newidiadau i'r daenlen tracio Llys i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Protocol.<br><br>**Gwaith yn mynd rhagddo ar ail ddilyniant ar hyn o bryd. Cynnydd i'w gyflwyno ger bron y Pwyllgor nesaf.** |
| 2 | Gorchmynion Llys Gofal Plant 044 2016/17 | 2 Nid yw penderfyniadau gan Reolwyr Tîm i gyflwyno achosion yng nghyfarfodydd "Legal Gatekeeping" yn cael eu cofnodi. Gwelwyd yn ogystal nad yw dogfennau megis cyfarfodydd cyn-achos, cofnod o gyfarfodydd adolygu "PLO" a llythyrau bob amser yn cael eu llwytho'n brydlon i'r system a'u cynnwys yn erbyn cofnod brawd neu chwaer lle'n briodol.<br><br>Gall hyn arwain at wybodaeth anghyflawn a diffyg sicrwydd lle mae gwybodaeth ar gael ac | 27/01/17 | 31/01/18 wedi newid o 31/01/17 | Rheolwr Gwasanaeth Corfforaethol a Phartneriaethau | Dilyniant Cyntaf 161744f1 - Mae penderfyniadau i fynd ag achosion i'r cyfarfodydd "Legal Gatekeeping" nawr yn cael eu cofnodi ar y system electronig newydd, WCCIS gan y Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Dwys<br><br>Mewn cyfarfod ar 16.1.18, rhannwyd yr holl ddogfennau perthnasol ac fe'u hatgoffwyd o'r angen i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei roi yn erbyn cofnod brawd neu chwaer yn ogystal. |

| Cyf | Adroddiad | Argymhelliad / Mater / Risg | Dyddiad yr Argymhelliad | Dyddiad Targed y cytunwyd arno | Swyddog Cyfrifol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | o ganlyniad bod diffyg tystiolaeth pan mae achos yn mynd i lys ac ansicrwydd bod penderfyniadau priodol yn cael eu gwneud. | | | | Mae trefniadau newydd ar gyfer cefnogaeth busnes ychwanegol ar gyfer Grwpiau Ymarfer. Bydd hyn yn galluogi staff gweinyddol i gefnogi gweithwyr cymdeithasol i sicrhau bod y dasg yma'n cael ei gwblhau'n effeithiol.<br><br>**Gwaith yn mynd rhagddo ar ail ddilyniant ar hyn o bryd. Cynnydd i'w gyflwyno ger bron y Pwyllgor nesaf.** |
| 3 | Gorchmynion Llys Gofal Plant 044 2016/17 | 3 Ymddengys yn dilyn profion nad yw llythyrau Cyn Achos a Llythyrau o Fwriad / Hysbysiad o Fwriad a chyfarfodydd cyn-achos bob amser yn cydymffurfio â'r Protocol Achosion Gofal, Amlinell Cyfraith Gyhoeddus a Materion Cyfreithiol 2016. Ymhellach i hyn, nid oedd y llythyrau bob amser yn cael eu hanfon i'r oll unigolion gyda chyfrifoldeb rhiant.<br><br>Nid yw rhieni felly'n cael eu hysbysu'n briodol o'r broses a ddilynwyd neu o benderfyniad a wnaeth a beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt er mwyn gwella. Gall hyn arwain at niwed emosiynol a / neu gorfforol o'r plentyn ac effaith emosiynol ar oll sy'n rhan o'i fywyd. | 27/01/17 | 31/01/18 wedi newid o 31/03/17 | Rheolwr Gwasanaeth Corfforaethol a Phartneriaethau | Dilyniant Cyntaf 161744f1 - Dogfennau a llythyrau wedi eu hadolygu a'u trafod gyda'r Arweinyddion ar 16.1.18 a bellach yn cael eu gweithredu. Mae'r rhain wedi eu rhannu gyda holl staff gyda'r arweiniad i ddileu pob templed sydd wedi dyddio.<br><br>Mewn cyfarfod ar 16.1.18, fe'u hatgoffwyd bod angen ymdrechu i adnabod manylion yr holl unigolion gyda chyfrifoldeb rhiant i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r broses.<br><br>**Gwaith yn mynd rhagddo ar ail ddilyniant ar hyn o bryd. Cynnydd i'w gyflwyno ger bron y Pwyllgor nesaf.** |
| 4 | Gorchmynion Llys Gofal Plant 044 2016/17 | 4 Gwelwyd nad oedd ymweliadau Gweithwyr Cefnogol bob amser yn cael eu cynnal yn unol â'r cynllun gofal yn ystod achosion llys.<br><br>Mae risg o niwed emosiynol a / neu gorfforol i'r plentyn. | 27/01/17 | 31/01/18 wedi newid o 31/03/17 | Rheolwr Gwasanaeth Corfforaethol a Phartneriaethau | Dilyniant Cyntaf 161744f1 – Gall diffyg cydymffurfiaeth arwain at achos o ddisgyblu staff.<br><br>**Gwaith yn mynd rhagddo ar ail ddilyniant ar hyn o bryd. Cynnydd i'w gyflwyno ger bron y Pwyllgor nesaf.** |

| Cyf | Adroddiad | Argymhelliad / Mater / Risg | Dyddiad yr Argymhelliad | Dyddiad Targed y cytunwyd arno | Swyddog Cyfrifol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tai** | | | | | | |
| 5 | Fframwaith Caffael Corfforaethol - Cydymffurfiaeth Gorfforaethol 076 2016/17 | 5.1.3 Nid oes gan y Cyngor sicrwydd bod ei wariant wedi cael ei gaffael yn gywir ac mae'n bosibl bod y Cyngor wedi gwario heb gynnal ymarfer caffael cystadleuol ffurfiol. O'r herwydd, mae diffyg contractau addas ac nid yw materion megis diogelu, diogelwch a gwerth am arian wedi cael eu hystyried. | 07/09/17 | 31/03/18 | Pennaeth Tai | Cadarnhaodd y Rheolwr Caffael Corfforaethol bod y tîm Caffael ar gael i gynorthwyo a chynghori yn ôl yr angen.<br><br>**Gwaith yn mynd rhagddo ar ail ddilyniant**. **Cynnydd i'w gyflwyno ger bron y Pwyllgor nesaf.** |
| **Adnoddau** | | | | | | |
| 6 | Safon Diogelwch y Diwydiant Cardiau Talu 066 2016/17 | 1.1a Nid oes cynllun neu raglen ffurfiol sy'n cael ei adolygu / ddiweddaru'n rheolaidd, neu pan mae newid sylweddol, i sicrhau cydymffurfiaeth gorfforaethol gyda Safonau Diogelwch y Diwydiant Cardiau Talu.<br><br>Gall hyn arwain at waith aneffeithiol ac aneffeithlon tuag at gydymffurfiaeth gyda diffyg amserlen i sicrhau gweithred gyflym lle bo angen. Gall diffyg cydymffurfiaeth arwain at gostau uwch, difrodi enw da a / neu gyfyngiadau / ein gwrthod yn barhaol o unrhyw raglenni derbyn taliadau cerdyn. | 21/09/16 | 01/06/18 wedi newid o 30/09/16 | Rheolwr Gwasanaeth Budd-daliadau a Refeniw | Uwchraddio "Capita Income Management" i fersiwn 10. Bydd hyn yn sicrhau bod rheolaeth terfynell effeithiol. Mae system amgryptio P2PE a phrisiau wedi eu casglu i uwchraddio neu brynu terfynell newydd. (Targed 2 Chwefror 2018)<br><br>Mae' Cyngor yn adolygu'r broses o recordio galwadau ffôn ac yn ystyried opsiynau o dan y system gorfforaethol ac eraill. Mae pris wedi ei dderbyn. Materion ynghylch pa mor fforddiadwy ydyw.<br><br>Yn dilyn uwchraddio i Fersiwn 10, bydd y Cyngor yn caffael ymgynghorydd cydymffurfiaeth corfforaethol â'r Safonau, yn benodol gyda gofynion GDPR. (Targed 1 Mehefin 2018)<br><br>Diweddariad 27/04/18 – Yn y broses o weithredu amgryptio terfynnell P2PE. Unwaith mae'r darparwr wedi ei gadarnhau, am gaffael Aseswr ar gyfer yr Awdurdod gyfan. Disgwyl adroddiad asesu gan yr Ymgynghorydd<br><br>Diweddariad 31/05/18 – Cynllun Prosiect Gwella mewn lle. |

| Cyf | Adroddiad | Argymhelliad / Mater / Risg | Dyddiad yr Argymhelliad | Dyddiad Targed y cytunwyd arno | Swyddog Cyfrifol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | **Bydd dilyniant yn cael ei gynnal yn ystod Hydref 2018.** |
| 7 | Safon Diogelwch y Diwydiant Cardiau Talu 066 2016/17 | 1.5a Nid yw'r amgylchedd cerdyn debyd / credyd y Cyngor wedi ei fapio i adnabod y math o drafodion a lle maent yn digwydd i sicrhau dealltwriaeth o'r amgylchedd.<br><br>Mae risg felly bod y Cyngor ddim yn ymwybodol o'r amgylchedd taliadau cerdyn ac felly gyda'r anallu i warchod yn ddigonol sy'n arwain at golli data cardiau talu. | 21/09/16 | 02/02/18 wedi newid o 30/09/17 | Rheolwr Gwasanaeth Budd-daliadau a Refeniw | Dilyniant Cyntaf 161766f1 - Mae cais wedi ei wneud am gymorth gan y Partner Busnes TGCh i fapio'r amgylchedd cerdyn debyd / credyd. Bydd hyn angen ei gwblhau cyn caffael Aseswr.<br><br>Diweddariad 27/04/18 – Mapio amgylchedd, Rheolwr Refeniw a Budd-daliadau i drafod gyda TG. Oedi oherwydd TG.<br><br>Diweddariad 31/05/18 – Yn digwydd ar hyn o bryd. Gweithredu yn unol â Chynllun Gweithredu PCI DSS.<br><br>**Bydd dilyniant yn cael ei gynnal yn ystod Hydref 2018.** |
| 8 | Rhenti Tai – Parodrwydd ar gyfer Diwygio Lles (Credyd Cynhwysol) 171818 | 8 Mae'r Gwasanaeth Tai ar hyn o bryd yn rhoi'r opsiwn i denantiaid dalu drwy archeb sefydlog. Caiff cysoni banc eu cynnal â llaw, felly mae posib nad yw taliadau drwy archeb sefydlog yn cael eu hadnabod a'u rhoi yn erbyn y côd cyfriflyfr yn brydlon, yn ddibynol ar adnoddau. Mae'r Adran Incwm yn treialu gweithredu system awtomatig. Fodd bynnag, mae risg na fydd cysoniadau cyn y bydd Credyd Cynhwysol yn fyw. Mae taliadau'r Adran Pensiwn a Gwaith hefyd yn cael eu postio â llaw sydd yn effeithio prydlondeb (treth cyngor a rhenti).<br><br>Mae risg bod dyledion rhent yn codi oherwydd yr oedi mewnbynnu taliadau rhent, sydd yn rhoi pwysau ar adennill ac o bosib yn wastraff | 24/01/18 | 31/03/18 | Rheolwr Gwasanaeth Budd-daliadau a Refeniw | Diweddariad 31/05/18 - Yn rhan o Gynllun Gwella 2018/19. Credyd Cynhwysol wedi ei oedi tan Ragfyr 2018. Dim yn fater i ni, i Tai - trosglwyddo taliadau, symud o archebion swyddogol i ddebyd uniongyrchol. |

| Cyf | Adroddiad | Argymhelliad / Mater / Risg | Dyddiad yr Argymhelliad | Dyddiad Targed y cytunwyd arno | Swyddog Cyfrifol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | o adnoddau'r Cyngor. O ganlyniad i hyn, bydd cyfrifon unigol yn dangos dyled a fydd o bosib yn cychwyn y broses adennill, fydd yn wastraff o adnoddau'r Cyngor ac yn achosi niwed i enw da'r Cyngor. | | | | |
| **Dysgu** | | | | | | |
| 9 | Darpariaeth y Cyngor ar gyfer y Rheoliadau Cyffredinol Diogelu Data (GDPR) 171801 | 8 Mae'r Gwasanaeth Dysgu ar hyn o bryd yn cynorthwyo ysgolion yn eu darpariaeth ar gyfer GDPR drwy apwyntio Swyddog Diogelu Data i weithredu cydymffurfiaeth.<br>Fodd bynnag, fel ar Ebrill 2018, nid oes Swyddog Diogelu Data wedi ei apwyntio ac felly mae risg na fydd ysgolion yn cydymffurfio'n llawn gyda GDPR erbyn 25 Mai 2018. | 27/11/17 | 30/06/18 | Pennaeth Dysgu | Mae'r Gwasanaeth Dysgu wedi cysylltu â'r ysgolion i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r Rheoliadau newydd a'r dyddiad ar gyfer gweithredu. Bydd pob ysgol yn cyfrannu tuag at y gost o apwyntio'r Swyddog Diogelu Data i sicrhau cydymffurfiaeth ym mhob sefydliad ysgol ac mae'r Gwasanaeth Dysgu ar hyn o bryd yn cynorthwyo gyda hyn.<br>Mae'r Swydd Ddisgrifiad wrthi'n cael ei adolygu ar hyn o bryd.<br>Diweddariad 03/09/18 – Mae'r swydd yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd.<br>**Gwaith dilyniant yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Cynnydd i'w gyflwyno ger bron y Pwyllgor nesaf.** |
| **Trawsnewid** | | | | | | |
| 10 | Safon Diogelwch y Diwydiant Cardiau Talu 066 2016/17 | 3.3 Nid oes proses mewn lle i asesu a chofnodi effaith y newid i isadeiledd TGCh ar elfennau PCI DSS.<br>Mae risg y bydd unrhyw newid yn amharu ar ddiogelwch gwybodaeth cardiau talu. | 21/09/16 | 30/04/18 wedi newid o 31/10/16 | Rheolwr Gwasanaeth TG a Rheoli Perfformiad. | Bydd hyn yn cael ei gynnwys o fewn y broses Rheoli Newid TG presennol lle mae gofyn i'r cwsmer sy'n caffael system newydd ystyried oblygiadau PCI DSS.<br>**Bydd dilyniant yn cael ei gynnal yn ystod Hydref 2018.** |

**Argymhellion Archwilio Mewnol Canolig a Melyn sydd heb eu gweithredu gyda dyddiad targed hyd at 31/08/2018**

| Cyf | Adroddiad | Argymhelliad / Mater / Risg | Dyddiad yr Argymhelliad | Dyddiad Targed y cytunwyd arno | Swyddog Cyfrifol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Corfforaethol** | | | | | | |
| 11 | Trefniadau Diogelu Corfforaethol 053 2016/17 | 7 Dylai'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol sefydlu rhaglen o weithgareddau sicrhau safon i sicrhau bod polisïau a disgwyliadau'n cael eu gweithredu'n effeithlon. | 09/09/16 | 31/03/18 wedi newid o 31/12/16 | Dirprwy Prif Weithredwr | Dilyniant Cyntaf 161753f1 - I'w gwblhau unwaith mae'r System Northgate wedi ei uwchraddio i gynnal bas-data o gofnodion DBS a hyfforddiant Diogelu ar draws pob Gwasanaeth.<br>**Ail ddilyniant ar y gweill, cynnydd i'w gyflwyno ger bron y Pwyllgor nesaf.** |
| **Adnoddau** | | | | | | |
| 12 | Diwylliant Moesegol 067 2016/17 | 1.1.1b Nid yw trefniadau monitro contractau ar gyfer cydymffurfiaeth iechyd a diogelwch wedi eu cynnwys o fewn Cynlluniau Gweithredu Iechyd a Diogelwch corfforaethol a gwasanaethol.<br>Mae risg na fydd trefniadau monitro cytundebau'n cael eu gweithredu'n effeithiol ac na fydd contractwyr yn dilyn arfer diogel. | 06/09/17 | 30/03/18 wedi newid o 31/12/17 | Rheolwr Caffael Corfforaethol | Bydd hyn yn cael ei gynnwys o fewn canllawiau caffael.<br>Bydd hefyd yn cael ei drafod gyda Phenaethiaid Gwasanaeth.<br>Diweddariad 29/11/17 – Bydd hyn yn cael ei gynnwys o fewn hyfforddiant Rheoli Cytundebau yn y flwyddyn newydd. |
| 13 | Budd-daliadau Tai a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 092 2016/17 | 8 Er bod diogelwch ffisegol gwybodaeth yr adain wedi gwella'n ddiweddar, mae risg, oherwydd mai system bapur ydyw, y bydd gwybodaeth yn mynd ar goll. | 31/08/17 | 31/12/17 | Rheolwr Budd-daliadau Tai | Mae ymdrechion i gadw ar ben y gwaith ffeilio. O ran diogelwch ffisegol, mae rheolaeth dros fynediad i'r ffeiliau a'r ystafell fudd-daliadau yn saff ac yn effeithiol. Mae'r broblem yn ymwneud â lleoli'r dogfennau a'r ffeiliau. Bydd y System Delweddu Dogfennau'n gwneud i ffwrdd â'r broblem hon.<br>Diweddariad 25/01/18 - Bydd System Delweddu Dogfennau'n gwella hyn - oedi ar hyn o bryd oherwydd Cynllunio a TG. Sganio ac adalw i fod yn fyw erbyn diwedd Chwefror 2018. Ôl-sganio wedi ei |

| Cyf | Adroddiad | Argymhelliad / Mater / Risg | Dyddiad yr Argymhelliad | Dyddiad Targed y cytunwyd arno | Swyddog Cyfrifol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | gwblhau ac yn ddiogel. Efallai bydd mwy o gostau ôl-sganio. |
| 14 | Trefniadau Yswiriant 074 2016/17 | 3.1.7 Dylid sicrhau bod ad-daliadau premiwm yswiriant yn cael eu codi'n brydlon yn unol â'r cytundeb lês. | 15/11/16 | 31/12/16 | Rheolwr Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau | Diweddariad 31/05/18 - Rhenti Unedau Diwydiannol - bilio ar wahân i'r les. Cael y symiau gan y Rheolwr Yswiriant a Risg. |
| 15 | Safon Diogelwch y Diwydiant Cardiau Talu 066 2016/17 | 2.1a Nid yw hyfforddiant ar gyfer swyddogion sy'n prosesu taliadau cerdyn yn cael ei ffurfioli'n gorfforaethol a'i gofnodi ar hyn o. Yn ychwanegol, nid oes proses mewn lle i gydnabod y ddealltwriaeth o bolisïau sy'n ymwneud â'r Safonau gyda sgiliau a chymwyseddau'n cael eu hadolygu fel rhan o'r broses gwerthuso er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau.<br><br>Mae risg bod diffyg ymwybyddiaeth ymysg staff o'r gofynion ar gyfer diogelu gwybodaeth deiliaid cardiau, ac o ganlyn bod diogelwch gwan o wybodaeth sensitif. | 21/09/16 | 31/03/18 wedi newid o 30/09/16 | Rheolwr Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau | Mae hyfforddiant anffurfiol yn cael ei ddarparu ar gyfer staff newydd, fodd bynnag mae angen ffurfioli hyn i sicrhau cysondeb o'r hyfforddiant corfforaethol.<br><br>Bydd yr hyfforddiant a ddarperir yn cael ei ffurfioli.<br><br>Diweddariad 31/05/18 – Mae hyn yn cael ei dargedu o dan y Cynllun Gwella PCI DSS (sydd yn ddrafft ar hyn o bryd).<br><br>**Bydd dilyniant yn cael ei gynnal yn ystod Hydref 2018.** |
| 16 | Y Brif System Gyfrifo 090 2016/17 | 1 Nid yw'r Swyddog Incwm yn gwagio'r cyfrifon incwm dros dro'n brydlon. Mae risg bod y Gwasanaeth Cyllid ddim am yn gallu adnabod incwm a gasglwyd yn brydlon o sicrhau bod cyfrifon a balansau'r Cyngor yn gywir ac y gellid dibynnu arnynt. Mae'r oedi yn adnabod a gwagio'r cyfrifon incwm dros dro yn cael effaith ar yr amserlen ar gyfer cwblhau gwaith cyfrifo arall ar gyfer gwirio balansau. | 22/05/17 | 31/05/18 wedi newid o 30/09/17 | Rheolwr Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau | Diweddariad 19/10/17 - Swyddog Incwm newydd wedi ei phenodi'n ddiweddar. Bydd hyn yn un o'i blaenoriaethau unwaith y bydd wedi ei hyfforddi'n llawn.<br><br>Diweddariad 25/01/18 - Mae côd trafodyn wedi ei greu ar gyfer y taliadau hyn (parhau i ddisgwyl am gôd cyfriflyfr) ac mae gwaith profi'n parhau. Heb ei gwblhau. |

| Cyf | Adroddiad | Argymhelliad / Mater / Risg | Dyddiad yr Argymhelliad | Dyddiad Targed y cytunwyd arno | Swyddog Cyfrifol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Diweddariad 31/05/18 – parhau i fod yn broblem. I'w drafod yn fuan ym mis Mai. |
| 17 | Darpariaeth y Cyngor ar gyfer y Rheoliadau Cyffredinol Diogelu Data (GDPR) 171801 | 1 Nid yw pob Pennaeth Gwasanaeth wedi adnabod ac asesu cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau fel risg o fewn y gofrestr risg gwasanaeth.<br><br>Mae risg bod gwasanaethau ddim yn asesu'r effaith o gydymffurfio â'r Rheoliadau arnynt, yn ychwanegol i beidio â chydymffurfio. Mae hefyd risg bod gwasanaethau ddim yn blaenoriaethu'r gwaith ar gyfer gweithredu a dangos eu bod yn cydymffurfio erbyn 25 Mai 2018. | 27/11/17 | 28/02/18 | Pennaeth Adnoddau | Penaethiaid Gwasanaeth i asesu capasiti eu gwasanaeth i ymdrin â'r gwaith i weithredu o fewn yr amserlen yn dilyn derbyn cam dau a thri o'r rhaglen waith (ar ôl wythnos 1 o Ionawr 2018) ac i gynnwys o fewn eu cofrestr risg a Chynllun Datblygu Gwasanaeth fel yn briodol.<br><br>Diweddariad 29/11/17 - Cynllun Gweithredu GDPR wedi ei gydnabod gan y Gwasanaeth - materion yn cael eu hadolygu.<br><br>**Gwaith dilyniant yn mynd rhagddo ar ar hyn o bryd. Cynnydd i'w gyflwyno ger bron y Pwyllgor nesaf.** |
| 18 | Fframwaith Caffael Corfforaethol - Cydymffurfiaeth Gorfforaethol 076 2016/17 | 1.1.1 Mae'r Rheolau Gweithdrefn Contractau'n cyfeirio at drothwyon yr UE ar gyfer tendrau a'r angen i gydymffurfio ag egwyddorion cytundeb yr UE, ond nid ydynt yn nodi beth yw'r trothwyon ar gyfer y mathau gwahanol o waith, neu'n cyfeirio at ble gellir gweld y wybodaeth. Mae risg na fydd defnyddwyr yn ymwybodol o'r trothwyon perthnasol ac felly bod prosesau caffael ddim yn cydymffurfio. | 07/09/17 | 30/06/18 wedi newid o 31/07/17 | Rheolwr Caffael Corfforaethol | Mae'r lefelau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd ac ni ddylid eu cynnwys yn y RhGC gan ei fod yn ddogfen sy'n rhan o'r Cyfansoddiad a rhaid i newidiadau fynd drwy'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn. Awgrymir bod newid i gynnwys cyfeiriad tuag at y Llawlyfr Caffael yn lle. (Pennaeth Busnes y Cyngor)<br><br>Ni fydd trothwyon OJEU yn cael eu cynnwys yn y RhGC gan eu bod yn newid pob dwy flynedd a rhaid i unrhyw newid mynd trwy'r Cyngor Llawn. Bydd linc o'r RhGC i'r llawlyfr (Rheolwr Caffael Corfforaethol). |

| Cyf | Adroddiad | Argymhelliad / Mater / Risg | Dyddiad yr Argymhelliad | Dyddiad Targed y cytunwyd arno | Swyddog Cyfrifol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | **Gwaith yn mynd rhagddo ar ail ddilyniant**. **Cynnydd i'w gyflwyno ger bron y Pwyllgor nesaf.** |
| 19 | Fframwaith Caffael Corfforaethol - Cydymffurfiaeth Gorfforaethol 076 2016/17 | 7.4.1 Nid yw'r Rheolau Gweithdrefn Contractau'n cynnwys yr angen am Asesiad Risg Cynaliadwyedd ar gyfer pob achos o gaffael dros £25k, fel y cyfeirir yn y Datganiad Polisi Caffael Cymru. Mae risg nad yw cynaliadwyedd yn cael ei ystyried o fewn y broses caffael ac, o ganlyniad, nid yw'r Cyngor yn cadw at ei gyfrifoldebau fel yr amlinellir gan Llywodraeth Cymru a ddim yn dangos cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. | 07/09/17 | 30/04/18 wedi newid o 31/07/17 | Rheolwr Caffael Corfforaethol | Bydd y RhGC yn cael ei hadolygu fis Tachwedd 2017. Bydd y gofyn am Asesiad Risg Cynaliadwyedd ar gyfer pob achos caffael dros £25k yn cael ei gynnwys.<br><br>**Gwaith yn mynd rhagddo ar ail ddilyniant**. **Cynnydd i'w gyflwyno ger bron y Pwyllgor nesaf.** |
| 20 | Fframwaith Caffael Corfforaethol - Cydymffurfiaeth Gorfforaethol 076 2016/17 | 7.4.2 Nid os gan y Cyngor Bolisi Caffael Cynaliadwy sy'n arwain at y risg bod egwyddorion datblygiadau cynaliadwy ddim yn cael eu hystyried wrth sefydlu a chymryd camau i gwrdd ag "amcanion llesiant". Gwelwyd nad yw caffael cynaliadwy'n cael ei gynnwys o fewn y rhaglen Hyfforddiant Caffael sy'n creu y risg fod staff ddim yn ymwybodol o'r gofynion, ac o ganlyniad bod caffael ddim yn cydymffurfio a bod y Cyngor ddim yn dangos cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. | 07/09/17 | 30/06/18 wedi newid o 31/07/17 | Rheolwr Caffael Corfforaethol | Mae polisi caffael cynaliadwy wedi ei ddrafftio a'i gyflwyno i'r UDA gyda gwaith pellach wedi ei adnabod.<br><br>Diweddariad 31/05/18 – Mae pethau wedi newid. Polisi Caffael Gwerth Cymdeithasol yn cael ei greu.<br><br>**Gwaith yn mynd rhagddo ar ail ddilyniant**. **Cynnydd i'w gyflwyno ger bron y Pwyllgor nesaf.** |
| 21 | Mân Ddyledwyr 171804 | 9 Nid yw'r Adran Dyledwyr yn gallu derbyn taliadau debyd uniongyrchol oherwydd diffyg adnoddau, yn eithrio dyledwyr Gofal Cartref | 22/11/17 | 30/04/18 wedi | Rheolwr Gwasanaeth Refeniw a | Mae'r Cyngor wedi newid banc ac mae'r Adran wedi gofyn am enw defnyddiwr gwasanaeth newydd (SUN) gan y banc. Bydd angen cynnal |

| Cyf | Adroddiad | Argymhelliad / Mater / Risg | Dyddiad yr Argymhelliad | Dyddiad Targed y cytunwyd arno | Swyddog Cyfrifol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | lle mae y rhan fwyaf yn talu drwy ddebyd uniongyrchol. | | newid o 31/01/18 | Budd-daliadau | profion ar y technoleg llinell isaf i sichrau bod ceisiadau'n cael eu clirio trwy BACS. Bydd profion hefyd yn cael eu cynnal ar y system ddyledwyr i ganiatáu'r Arweinydd Tîm Incwm i greu debyd uniongyrchol, mewnforio ac allforio'r ffeil o'r system Dyledwyr i ryddhau'r llinell isaf ac awdurodi'n effeithiol. Mae'r Adran yn cynnal cyfarfodydd misol gyda Gwasanaethau Cymdeithasol i drafod sut mae'r Adran yn bwriadu sefydlu debyd uniongyrchol. Gan fod dyledion Gofal Cartref yn cael eu casglu trwy'r hen rif defnyddiwr gwasanaeth, mae'r Adran yn gobeithio trosglwyddo'r data i allu gweithredu o dan y rhif newydd. Bydd profion yn cael eu cynnal o fewn y system Civica i gadarnhau.<br><br>Diweddariad 25/01/18 - Yn y broses o gwblhau ffurflenni ar gyfer trosglwyddo swmp o'r data gofal cartref i'r drefn newydd. Problem gydag adnoddau.<br><br>Diweddariad 31/05/18 – Angen gwneud hyn erbyn diwedd y flwyddyn – rhaid ei wneud oherwydd taliadau cludiant ysgolion.<br><br>**Gwaith dilynant yn mynd rhagddo ar hyn o bryd**. **Cynnydd i'w gyflwyno ger bron y Pwyllgor nesaf.** |
| **Children's Services** | | | | | | |
| 22 | Gorchmynion Llys Gofal Plant 044 2016/17 | 5 Mae enwi dogfennau o fewn y system electronig yn anghyson a ddim bob amser wedi eu henwi mewn modd ystyrlon. Gall | 27/01/17 | 31/01/18 wedi newid o 31/07/17 | Rheolwr Gwasanaeth Diogelu | Dilyniant Cyntaf 161744f1 - Mae Rheolwr Gwasanaeth Sicrhau Safon newydd wedi ei hapwyntio ers i'r adroddiad gwreiddiol cael ei gyhoeddi. |

| Cyf | Adroddiad | Argymhelliad / Mater / Risg | Dyddiad yr Argymhelliad | Dyddiad Targed y cytunwyd arno | Swyddog Cyfrifol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | hyn arwain at fethiant i adnabod dogfennau a'u bod yn cael eu methu.<br><br>Mae risg o ddiffyg tystiolaeth yn cael ei ddarparu, neu fod gwaith yn cael ei ddyblygu. | | | | Diweddariad 29/11/17 – Mae gwaith wedi ei ddechrau ar greu canllawiau cofnodi ymarfer da "glossary of terms" gyda'r bwriad o greu cysondeb cofnodi a therminoleg.<br><br>Diweddariad 02/05/18 - Erbyn hyn mae Safonau Ymarfer mewn perthynas â chofnodi wedi eu derbyn: ac mae canfyddiadau archwilio o fewn y gwasanaeth o ymarfer yn dangos fod safon cofnodi yn gwella drwyddi draw. Mae gwaith datblygu yn digwydd o ran y system WCCIS a fydd yn cynnwys llif gwaith a chytuno templedi a fydd yn cael eu defnyddio yn gyson.<br><br>**Gwaith yn mynd rhagddo ar ail ddilyniant ar hyn o bryd. Cynnydd i'w gyflwyno ger bron y Pwyllgor nesaf.** |
| 23 | Gorchmynion Llys Gofal Plant 044 2016/17 | 7 Gwelwyd yn dilyn profion bod rhai swyddogion ddim wedi mynychu'r hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth. Ymddengys hefyd nad oes proses mewn lle i sicrhau bod gweithwyr asiantaeth yn mynychu hyfforddiant diogelu data cyn cychwyn ar eu gwaith dydd i ddydd o fewn y Gwasanaethau Plant.<br><br>Mae risg bod deddfwriaeth diogelu data ddim yn cael ei ddilyn yn briodol. | 27/01/17 | 31/01/18 wedi newid o 31/03/17 | Rheolwr Gwasanaeth Corfforaethol a Phartneriaethau | Dilyniant Cyntaf 161744f1 – Mae pob swyddog i arwyddo ffurflenni datganiad Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelu Data fel rhan o Anwythiad Gwasanaeth.<br><br>**Gwaith yn mynd rhagddo ar ail ddilyniant ar hyn o bryd. Cynnydd i'w gyflwyno ger bron y Pwyllgor nesaf.** |
| 24 | Gwasanaeth Maethu – Recriwtio a Chadw | 3 Ar hyn o bryd, dros y tair blynedd diwethaf mae gorwariant yn erbyn cyllideb recriwtio a chadw gofalwyr maeth ac nid oes cynllun/cyllideb wedi ei awdurdodi ar gyfer | 24/05/18 | 30/06/18 | Rheolwr Gwasanaeth Corfforaethol a Phartneriaethau | Bydd y gyllideb yn cael ei hadolygu fel rhan o'r adolygiad gwasanaeth sydd ar waith a bydd yn cael ei fonitro'n rheolaidd am briodoldeb. |

| Cyf | Adroddiad | Argymhelliad / Mater / Risg | Dyddiad yr Argymhelliad | Dyddiad Targed y cytunwyd arno | Swyddog Cyfrifol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gofalwyr 171820 | marchnata. Nid yw'r gyllideb wedi ei hadolygu i sicrhau ei fod yn addas, realistig ac yn gyflawn i sicrhau bod monitro cyllideb cywir.<br><br>Mae risg bydd y Gwasanaeth yn parhau i orwario yn erbyn ei gyllideb a bydd y nifer o ofalwyr maeth ac opsiynau lleoliad yn parhau i leihau, fydd yn y pen draw yn arwain at fwy o gostau i'r Cyngor. | | | | **Archwiliad wedi ei amerslenu fel rhan o'r Cynllun Archwilio Mewnol 2018/19.** |
| **Learning** | | | | | | |
| 25 | Dilyniant Parhad Busnes 081 2016/17 | 1.3 Dylai gwasanaethau sicrhau bod trefniadau Parhad Busnes a Chynllunio Argyfwng yn gyfredol ac yn weithredol; dylai'r Cynlluniau Darparu Gwasanaeth gynnwys trefniadau Parhad Busnes a Chynllunio Argyfwng. | 17/01/17 | 01/04/17 wedi newid o 31/12/15 | Pennaeth Dysgu | Wedi ei ail-adrodd o Reoli Parhad Busnes 007 2015/16 |
| 26 | Cludiant Ysgolion 171805 | 3.1 Nid oes proses mewn lle i ganiatáu'r Adran Cludiant i wirio gyda'r Gwasanaeth Dysgu os yw plentyn yn parhau i fod angen gwasanaeth cludo. Mae'r Adran Cludiant yn dibynnu ar y contractwr i hysbysu'r Cyngor am unrhyw newidiadau.<br><br>Mae risg bod y Cyngor ddim yn cael ei hysbysu, neu ei hysbysu'n brydlon. Yn ychwanegol, mae risg bod y Cyngor ddim yn gallu gwirio'r plant sy'n bresennol ar bob taith i ac o sefydliadau addysgol i allu hysbysu rhieni pe bai digwyddiad. | 06/09/17 | 30/06/18 wedi newid o 31/03/18 | Pennaeth Dysgu | Bydd y Gwasanaeth Dysgu'n gweithredu modiwl "Transport One". Bydd y modiwl yn adnabod y plant a ddylai fod ar bob gwasanaeth cludiant a ddarperir gan y Cyngor. Bydd y system hefyd yn cael ei ddefnyddio i adolygu disgyblion sy'n derbyn gwasanaeth tacsi ar sail flynyddol.<br><br>Diweddariad 23/09/17 – Yn y cyfamser, bydd Addysg yn adolygu rhestrau disgyblion tacsi gyda'r Adran Cludiant yn dymhorol.<br><br>Bydd swyddog o fewn y Gwasanaeth Dysgu yn ymgymryd â'r dasg o gwblhau adolygiadau tymhorol o'r gwasanaeth tacsi ar y cyd â |

| Cyf | Adroddiad | Argymhelliad / Mater / Risg | Dyddiad yr Argymhelliad | Dyddiad Targed y cytunwyd arno | Swyddog Cyfrifol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | phenaethiaid ysgol, Gwasanaethau Cymdeithasol ac eraill.<br><br>Dilyniant Cyntaf 171805f1 - Mae trefniadau dros dro mewn lle ar gyfer gwasanaethau tacsi sy'n cludo disgyblion i ac o'r ysgolion cyn i'r modiwl "ONE" ddod yn fyw. Mae'r Adran Cludiant yn cadw gwybodaeth sydd yn ymwneud â chytundebau bysus. Derbyniwyd gwybodaeth y bydd disgyblion yn cael eu hadnabod ar gyfer ar bob cytundeb bws a bydd yn cael ei weithredu drwy'r modiwl "Transport One". Yn dilyn casglu data cyfredol, bydd yr Adran Addysg yn gwirio gyda'r ysgol ac uned pob tymor i sicrhau bod unrhyw newidiadau'n cael eu hamlygu mewn ffurf "sign off" gan bob ysgol.<br><br>Mae'r ysgolion wedi adnabod person gyda'r cyfrifoldeb i arwain ar y gwaith i fonitro'r sefyllfa.<br><br>Mae'r person sy'n arwain ar gyfer pob ysgol hefyd wedi derbyn cais gan yr Adran Addysg i hysbysu'r Gwasanaeth Dysgu'n syth pan nad oes angen darpariaeth mwyach, drwy hysbysu adrannau'r Cyngor a'r cwmnïau tacsi unigol.<br><br>Cynhaliwyd ymarfer casglu data yn ystod tymor yr hydref 2017 gan yr Adran Addysg wirio pa blant oedd yn bresennol ar bob taith tacsi i ac o'r sefydliadau addysgol - mae hyn yn ofynnol i sicrhau bod cyfrifoldebau diogelu ac iechyd a diogelwch yn cael eu cwblhau.<br><br>Diweddariad 30/08/18 - Ers Tachwedd 2017, mae proses wedi ei sefydlu rhwng Addysg a Chludiant |

| Cyf | Adroddiad | Argymhelliad / Mater / Risg | Dyddiad yr Argymhelliad | Dyddiad Targed y cytunwyd arno | Swyddog Cyfrifol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | lle mae pob cais am gludiant yn cael ei dderbyn gan swyddog penodol o fewn yr Adran Addysg trwy ffurflen gais penodol gan Addysg (sy'n cynnwys manylion rheini mewn argyfwng). Mae'r cais yn cael ei ystyried yn erbyn y polisi presennol ac, os yw'n cael ei awdurdodi, caiff ei anfon at swyddog penodol o fewn yr Adran Cludiant. Unwaith mae Cludiant wedi prosesu'r cais, caiff gwybodaeth cytundeb eu rhannu gydag Addysg (h.y. rhif cytundeb / gweithredwr) a chaiff ei ychwanegu i "Transport ONE". Pan mae angen diddymu cytundeb, caiff hyn ei wneud trwy ffurflen benodol (eto gan Addysg) sy'n cael ei rannu gydag Addysg / Cludiant. Yn ychwanegol, caiff manylion y cytundebau eu rhannu gyda'r ysgolion penodol ar sail dymhorol gan Addysg fel modd ychwanegol o fonitro. |
| **Trawsnewid** | | | | | | |
| 27 | Safon Diogelwch y Diwydiant Cardiau Talu 066 2016/17 | 3.6 Nid yw sganiau rhwydwaith yn cael eu cynnal ar sail chwarterol gan werthwr sganio sydd wedi ei gymeradwyo yn unol â rhan 11.2 "PCI Security Standards Council PCI Quick Reference Guide".<br><br>Mae risg y bydd gwendidau o fewn y rhwydwaith yn amharu ar ddiogelwch data. | 21/09/16 | 30/04/18 wedi newid o 30/09/16 | Rheolwr Gwasanaeth TG a Rheoli Perfformiad | Mae sganiau "PSN" o'r rhwydwaith yn cael eu cynnal yn flynyddol gan ddarparwr allanol.<br><br>Nid yw data o'r cardiau'n cael ei gadw ar isadeiledd TG y Cyngor. TG i dderbyn sicrwydd gan y cwmni meddalwedd i gadarnhau eu bod yn cydymffurfio â'r Safonau.<br><br>Cyfrifoldeb y Rheolwr Integreiddio Systemau Busnes TG yn ogystal.<br><br>**Bydd dilyniant yn cael ei gynnal yn ystod Hydref 2018.** |

| Cyf | Adroddiad | Argymhelliad / Mater / Risg | Dyddiad yr Argymhelliad | Dyddiad Targed y cytunwyd arno | Swyddog Cyfrifol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Busnes y Cygnor** | | | | | | |
| 28 | Darpariaeth y Cyngor ar gyfer y Rheoliadau Cyffredinol Diogelu Data (GDPR) 171801 | 1 Nid yw pob Pennaeth Gwasanaeth wedi adnabod ac asesu cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau fel risg o fewn y gofrestr rig gwasanaeth.<br><br>Mae risg bod gwasanaethau ddim yn asesu'r effaith o gydymffurfio â'r Rheoliadau arnynt, yn ychwanegol i beidio â chydymffurfio. Mae hefyd risg bod gwasanaethau ddim yn blaenoriaethu'r gwaith ar gyfer gweithredu a dangos eu bod yn cydymffurfio erbyn Mai. | 27/11/17 | 28/02/18 | Pennaeth Busnes y Cyngor | Penaethiaid Gwasanaeth i asesu capasiti eu gwasanaeth i ymdrin â'r gwaith i weithredu o fewn yr amserlen yn dilyn derbyn cam dau a thri o'r rhaglen waith (ar ôl wythnos 1 o Ionawr 2018) ac i gynnwys o fewn eu cofrestr risg a Chynllun Datblygu Gwasanaeth fel yn briodol.<br><br>**Gwaith dilyniant yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Cynnydd i'w gyflwyno ger bron y Pwyllgor nesaf.** |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | | | | | | |
| 29 | Ffioedd Rheolaeth Adeiladu – Arolwg a Gorfodaeth 061 2016/17 | 1.1 Mae gweithdrefnau anffurfiol mewn lle ar gyfer ymdrîn â ffioedd incwm Rheolaeth Adeiladu; nid yw'r gweithdrefnau wedi eu dyddio na chofnod o'r fersiwn na phryd mae'r adolygiad nesaf.<br><br>Mae diffyg canllawiau ffurfiol, sy'n derbyn adolygiad ffurfiol, yn y cynyddu'r risg o ddiffyg cydymffurfiaeth gydag ymarferion disgwyliedig, yn cynnwys prosesau rheolaeth fewnol, fydd o bosib yn arwain at wallau wrth brosesu, colled ariannol a / neu ddifrodi enw da'r Cyngor. | 12/08/16 | 31/12/17 wedi newid o 31/12/16 | Arweinydd Tîm Rheolaeth Adeiladu | Dim gweithdrefnau mewn lle sydd yn erbyn y codau sydd o fewn y Safonau Perfformiad Rheolaeth Adeiladu 2014.<br><br>Dim ond un aelod o dîm gweinyddol, sydd yn annigonol pan fo gwyliau blynyddol neu salwch sy'n arwain at waith yn cael ei ddal yn ôl ac incwm yn sefyll.<br><br>Ail Ddilyniant 151661f2 - Esboniodd yr Arweinydd Tîm Rheolaeth Adeiladu bod gweithdrefnau anffurfiol mewn lle ar hyn o bryd a bod polisi ad-daliad ffurfiol wedi ei ddrafftio. Cytunwyd bydd gweithdrefnau casglu incwm yn cael ei gynnwys o fewn hwn a'i adolygu gan uwch reolwr i sicrhau eu bod yn gyflawn. |

| Cyf | Adroddiad | Argymhelliad / Mater / Risg | Dyddiad yr Argymhelliad | Dyddiad Targed y cytunwyd arno | Swyddog Cyfrifol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Diweddariad 22/12/17 – Dogfen Gweithdrefnau Ad-daliad Rheolaeth Adeiladu wedi ei chreu. Nid yw'n cynnwys yr elfen casglu incwm. |
| 30 | Ffioedd Rheolaeth Adeiladu – Arolwg a Gorfodaeth 061 2016/17 | 2.8 Nid oes ffurflenni datganiad diddordeb ffurfiol wedi eu cwblhau gan yr adran; derbyniwyd sicrwydd bod swyddogion ddim yn derbyn gwaith o fewn ardal eu cartref.<br>Mae diffyg gan swyddogion i ddatgan yn ffurfiol unrhyw ddiddordeb personol / datgan lletygarwch neu anrhegion yn tanseilio gonestrwydd y gwasanaeth. | 12/08/16 | 31/11/17 wedi newid o 31/12/16 | Arweinydd Tîm Rheolaeth Adeiladu | Diweddariad 29/03/17 – Mae ffurflen electronig ar gael i'w ddefnyddio ac mae staff wedi eu hatgoffa o Gôd Ymddygiad Swyddogion.<br>Ail Ddilyniant 151661f2 - Staff heb gwblhau ffurflenni datganiad. Awgrymodd yr Arweinydd Tîm Rheolaeth Adeiladu, lle mae'r angen, y dylai ffurflen datganiad diddordeb gael ei gwblhau ar gyfer pob cais Rheolaeth Adeiladu i sicrhau bod y broses yn gyflawn a chywir. |
| **Ysgolion** | | | | | | |
| 31 | Ysgol Gynradd Bodedern 029 2015/16 | 5.6.1 Dylai'r Corff Llywodraethu benodi'n ffurfiol archwiliwr ar gyfer Cronfa'r Ysgol a dylid cofnodi hyn yng nghofnodion y cyfarfod. | 29/02/16 | 31/10/16 | Pennaeth | **Dim diweddariad wedi ei dderbyn.** |
| 32 | Ysgol Gynradd Bodedern 029 2015/16 | 5.7.1 Dylai'r ysgol gofrestru gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth yn unol â Deddf Diogelu Data 1988. | 29/02/16 | 31/03/16 | Pennaeth | **Dim diweddariad wedi ei dderbyn.** |
| 33 | Ysgol Talwrn 030 2015/16 | 4.6.1 Dylid cynnal asesiad risg er mwyn nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig wrth ymateb i'r larwm diogelwch. | 15/03/16 | 31/03/16 | Pennaeth | **Dim diweddariad wedi ei dderbyn.** |
| 34 | Ysgol Llanfair PG 057 2016/17 | 4.5.1 Dylid diweddaru cofnodiadau gyrwyr yn flynyddol a dylai bob aelod o staff lenwi ffurflen – Datganiad ar gyfer Gyrwyr Cerbydau'r Cyngor neu Gerbydau Preifat. | 15/06/16 | 30/06/16 | Pennaeth | **Dim diweddariad wedi ei dderbyn.** |